**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 3ydd Medi 2003**
**Eitem: 2**

# DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
# CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
# DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
# RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
# DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990

# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

**Nid yw'r atodiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hynny yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor**

# AWDURDODIADAU'R PWYLLGOR GORFODAETH
# ADRODDIAD ADOLYGIAD YR ACHOSION
# Medi 2003

**Adroddwyd am yr achosion hyn wrth y Pwyllgor yn flaenorol, ond maent yn parhau heb eu datrys. Diben yr Adroddiad hwn yw darparu diweddariad chwarterol cryno i'r Aelodau. Dylid trafod unrhyw fanylion penodol â'r Swyddogion cyn neu ar ôl y Pwyllgor.**

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL/ AMOD | NODIADAU | GWEITHRED |
|---|---|---|---|---|---|
| ENF/292/97/S P7/521 | | 26/11/97 | Newid diawdurdod i lefelau'r tir | Rhybudd wedi ei gyflwyno, dim apêl wedi ei chyflwyno. Dyddiad cydymffurfio: 09/04/99.<br>Y rhan fwyaf o'r gwaith sy'n ofynnol yn y rhybudd wedi ei gwblhau. Gwaith adeiladu'n parhau ar yr annedd a gymeradwywyd felly nid yw'r datblygiad wedi ei gwblhau. | GC yn monitro. |
| ENF/575/96/S P7/538 | | 30/09/98 | Amod gweithiwr amaethyddol.<br>Ddim yn cydymffurfio â'r amod. | Rhybudd gorfodaeth wedi ei gyflwyno, dim apêl wedi ei chyflwyno. Dyddiad cydymffurfio: 18/06/00, felly'n torri'r amod yn awr.<br>3ydd cais wedi'i gyflwyno i ddileu'r amod yn aros i gael ei benderfynu. | GC i benderfynu ar y cais a gweithredu'r rhybudd os oes angen. |
| ENF/037/95/N P13/11 | | 28/10/98 | 31 ffenestr anawdurdodedig mewn adeilad rhestredig. | Cyflwynwyd rhybudd, gohirwyd yr apêl ac yna ei gwrthod. Dyddiad cydymffurfio: 19/10/00, felly'n torri'r amod yn awr.<br>4 ffenestr wedi eu hadnewyddu â math derbyniol.<br>37 ffenestr yn dal yno ond wedi eu paentio'n wyn, felly nid ydynt yn cydymffurfio â'r rhybudd. Y | GC i atal gweithredu nes cyflwynir cais i gadw'r ffenestri wedi'u paentio.<br>GC i ddarparu manylion am y costau'n gysylltiedig â'r apeliadau i GCyf.<br>GCyf i ysgrifennu at y perchennog ynglyn â'r costau. |

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL/ AMOD | NODIADAU | GWEITHRED |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | perchennog wedi datgan ei fod yn mynd i gyflwyno cais am ganiatâd adeilad rhestredig i gadw'r ffenestri wedi'u paentio.<br>GCyf yn mynd ar ôl y costau'n gysylltiedig ag apeliadau blaenorol. | |
| ENF/006/97/S P13/8 | | 27/10/99 | Esgeuluso adeilad rhestredig | Y perchennog wedi marw. Mae'r safle ar werth. Fawr iawn y gellir ei wneud ar hyn o bryd. | GC yn monitro'r safle i gadw llygad rhag ofn rhagor o ddirywiad yn yr adeiladwaith a ph'un ai yw'r safle'n cael ei werthu ai peidio. |
| ENF/001/96/N P13/6 | | 27/10/99 | Esgeuluso adeilad rhestredig | Gwnaeth y 'sgubor ddymchwel wrth i'r perchennog newydd gyflawni mân atgyweiriadau a oedd yn ofynnol gan y gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu i wneud y strwythur yn ddiogel. Hysbyswyd Cadw.<br>Cais adolwg am ganiatâd adeilad rhestredig i ddatrys y mater drwy dynnu'r adeilad oddi ar y rhestr wedi ei gyflwyno yn awr. Yn aros am ymateb ffurfiol oddi wrth Cadw.<br>Derbyniwyd cais cynllunio i adeiladu adeilad yn cynnwys 2 uned preswyl. | GC i brosesu'r ceisiadau yn dibynnu ar ymateb Cadw. |
| ENF/302/98/S P13/10 | | 27/10/99 | Esgeuluso adeilad rhestredig – Heneb | Adeilad Rhestredig a Heneb. Cytunodd Cadw i gyllido 100% o arolwg llawn y waliau sy'n weddill. Fel Heneb nid oes gan Gyngor Sir Ddinbych unrhyw bwerau cynllunio yn y mater hwn. | GC i barhau i bwyso ar Cadw i weithredu. |

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL/ AMOD | NODIADAU | GWEITHRED |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| ENF/432/99/S P7/543 | | 26/01/00 | Defnyddio carafan fel preswylfod | Cyflwynwyd y rhybudd, apêl drwy gyfrwng Ymchwiliad Cyhoeddus. Apêl wedi ei encilio. Caniatâd cynllunio wedi ei roi am garafan preswyl am gyfnod o 3 blynedd. | Apeliadau wedi eu tynnu yn ôl yn sgîl y caniatâd cynllunio dros dro. Adolygu ymhen tair blynedd.<br>DGP ar hyn o bryd. |
| ENF/001/99/N P13/5 | | 09/05/00 | Esgeuluso adeilad rhestredig | Y perchennog newydd yn trafod â'r GC ynghylch cyflwyno cais cynllunio, cais am ganiatâd adeilad rhestredig a chais rheoliadau adeiladu i adnewyddu'r safle ar gyfer unedau preswyl. | GC i atal unrhyw weithredu nes y cyflwynir y ceisiadau.<br>GC wedi ysgrifennu at y perchennog yn nodi'r angen i wneud gwelliannau i ymddangosiad yr adeilad ar frys, gosod y sgaffaldau'n ddiogel ac ati. |
| ENF/127/00/S P13/13 | | 28/06/00 | Ffenestri a drws uPVC | Cyflwynwyd rhybudd, dim apêl wedi'i chyflwyno. Dyddiad cydymffurfio: 27/04/02, felly'n torri'r amod yn awr.<br>Y perchennog newydd yn anfodlon cydymffurfio â'r Rhybudd ac wedi cadarnhau y bydd yn cyflwyno cais am ganiatâd adeilad rhestredig i osod ffenestr uPVC "treftadaeth". | GC i atal hyn am ddeufis (01/09/03) i roi cyfle i'r perchennog newydd gyflwyno cais. |
| ENF/534/99/S P7/559 | | 28/02/01 | Heb adnewyddu 3 coeden pisgwydden a dorrwyd yn unol â'r Gorchymyn Cadw Coed | Cyflwynwyd rhybudd, dim apêl wedi'i chyflwyno. Dyddiad cydymffurfio: 25/11/02.<br>3 coeden newydd wedi eu plannu a ffens atal da byw wedi ei gosod. Trefor Thompson yn fodlon fod y plannu ac ati'n dderbyniol. | Cydymffurfiwyd â'r rhybudd.<br>DGP. |

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL/ AMOD | NODIADAU | GWEITHRED |
|---|---|---|---|---|---|
| ENF/434/99/N<br>LB1 – P7/552<br>LB2 – P7/553<br>LB3 – P7/555<br>LB4 – P7/554 | | 28/03/01 | Lleoli a masnachu o unedau arlwyo symudol ar Dir y Goron | Cyflwynwyd rhybuddion, gwrthodwyd yr apeliadau.<br>Dyddiad cydymffurfio: 02/05/03<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod arwyddion ymhob un o’r 4 cilfan yn nodi “dim masnachu”, ffensys wedi eu gosod mewn dwy o’r cilfannau hefyd.<br>Yr holl unedau parhaol wedi mynd oddi yno yn awr.<br>1 cilfan yn parhau i gael ei defnyddio’n rheolaidd yn ystod y dydd gan uned symudol, ynghyd â’r atodion arferol – baneri, arwyddion ac ati. | GC a GCyf i asesu a yw’n briodol gweithredu ymhellach nawr bod y cabanau parhaol wedi eu symud oddi yno. YS i’w drefnu rhwng GC a GCyf. |
| ENF/466/00/N<br>P7/577 | | 27/06/01 | Blaen siop uPVC diawdurdod | Cyflwynwyd rhybudd, gwrthodwyd yr apêl. Dyddiad cydymffurfio: 27/12/02<br>Cymeradwywyd cais am flaen siop pren mewn dyluniad sy’n cydweddu’n well. Swyddogion wedi negodi gosod y blaen siop newydd yn unol â’r caniatâd cynllunio. | Cydymffurfiwyd â’r rhybudd. Canlyniad llwyddiannus.<br>DGP |
| ENF/133/00/S<br>P7/560 | | 25/07/01 | Carafan breswyl dwy uned | Cyflwynwyd rhybudd, ni chyflwynwyd apêl. Dyddiad cydymffurfio: 31/10/02, felly’n torri’r amod yn awr.<br>2 gais cynllunio adolwg ac apeliadau wedi eu gwrthod.<br>Mae’r apelydd wedi cael llety mewn ty cyngor ac felly nid yw’n byw yn y garafan mwyach. Fodd bynnag, nid yw’r garafan wedi ei symud fel | GC i fonitro’r safle o ran y defnydd a wneir o’r garafan a gofyn am ragor o wybodaeth gan yr ymgeisydd fel y gellir prosesu’r cais annilys i ddefnyddio’r garafan fel swyddfa/storfa. |

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL/ AMOD | NODIADAU | GWEITHRED |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | sy'n ofynnol yn y Rhybudd Gorfodaeth. Cais annilys wedi'i gyflwyno i gadw'r garafan ar y safle i'w defnyddio fel swyddfa/storfa yn gysylltiedig â'r gweithgareddau pysgota. | |
| ENF/2001/004<br>P7/564<br><br>P7/601<br><br>P2/43 | | 25/07/01<br><br>23/04/03<br><br>23/04/03 | Gosod 'roller shutters'<br><br>Codwr stondin diawdurdod ar flaen y siop<br><br>Arwydd wynebfwrdd wedi ei oleuo | Cyflwynwyd rhybudd, penderfynwyd fod yr apêl yn annilys. Dyddiad cydymffurfio: 21/2/02. Yn parhau heb gydymffurfio â'r rhybudd. Erlyn yn y llys ar 26/08/03<br><br>Cyflwynwyd rhybudd. Rhaid cyflwyno apêl erbyn 25/09/03 neu gydymffurfio â'r Rhybudd erbyn 25/10/03<br><br>Yr arwydd yn parhau yn ei le. Erlyn yn y llys ar 26/8/03 | GC a GCyf i gydlynu'r ymddangosiad yn y llys, ynghyd â'r arwydd diawdurdod a'r 'roller shutter' yn rhif 204.<br><br>GC yn monitro.<br><br>GC a GCyf i gydlynu'r ymddangosiad yn y llys, ynghyd â'r arwydd diawdurdod a'r 'roller shutter' yn rhif 204. |
| ENF/2001/005<br>P7/565 | | 25/07/01 | Gosod 'roller shutter' | Fel uchod. | GC a GCyf i gydlynu'r ymddangosiad yn y llys, ynghyd â'r arwydd diawdurdod a'r 'roller shutter' yn rhif 208. |
| ENF/100/01/N<br>P7/572 | | 28/11/01 | Tor-amod. Paent blaen y siop. | Cyflwynwyd rhybudd, gwrthodwyd yr apêl. Dyddiad cydymffurfio: 13/08/02.<br>Blaen y siop wedi ei phaentio – y paent yn dderbyniol. | Cydymffurfiwyd â'r rhybudd o ran blaen y siop.<br>DGP. |
| ENF/02/007<br>P7/568 | | 30/01/02 | Storio cerbydau a defnydd preswyl. | Cyflwynwyd rhybudd, gwrthodwyd yr apêl.<br>Dyddiad cydymffurfio: 01/04/04 | GC i fonitro'r dyddiad cydymffurfio a chydgysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd sydd hefyd yn gweithredu yn erbyn |

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL/ AMOD | NODIADAU | GWEITHRED |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | perchennog y safle. |
| ENF/2002/0002 P7/569 | | 30/01/02 | Adeiladu adeilad deulawr. | Cyflwynwyd rhybudd, gwrthodwyd yr apêl. Dyddiad cydymffurfio: 13/12/03. Rhoddwyd Tystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer ardal yr ardd. Gwaith wedi dechrau i ostwng uchder yr adeilad fel ei fod o fewn y terfynau datblygu a ganiateir. | GC i fonitro uchder yr adeilad i weld a yw'n ddatblygiad a ganiateir. |
| ENF/2002/005 P7/573 | | 27/02/02 | Estyniad i annedd | Cyflwynwyd rhybudd, tynnwyd yr apêl yn ôl. Dyddiad cydymffurfio: 02/12/03 Caniatâd cynllunio wedi ei roi yn ddilynol sy'n cynrychioli cyfaddawd. | GC i fonitro'r datblygiad a'r dyddiad cydymffurfio. |
| ENF/184/99/S P13/17 (gwaith diawdurdod) P34/115 (Monoplas) | | 26/06/02 04/09/02 | Esgeuluso adeilad rhestredig. Tynnu'r cloc oddi ar yr adeilad a'r plwm oddi ar y to | Perchnogion newydd. | GC mewn cysylltiad â'r perchnogion newydd a'r Phoenix Trust i geisio bwrw ymlaen ag Astudiaeth Dichonoldeb a pheth gwaith adfer i'r adeilad, o gofio'r goblygiadau i ddiogelwch y cyhoedd. |
| ENF/2002/003 P7/581 | | 26/06/02 | Ffenestri a drws uPVC | Cyflwynwyd rhybudd, a thynnwyd yr apêl yn ôl ar ddiwrnod yr Ymchwiliad Cyhoeddus. Dyddiad cydymffurfio: 22/05/04 Y safle mewn Ardal Gadwraeth ac ardal Cyfarwyddeb Erthygl 4(2) | GC i fonitro'r dyddiad cydymffurfio. GC wedi ysgrifennu at y perchennog ynghylch manylion am y ffenestri adnewyddu. |
| ENF/2002/025 P7/580 | | 26/06/02 | Defnydd cymysg, preswyl a gwerthu ceir | Cais adolwg wedi ei wrthod a chyflwynwyd rhybudd. Apeliadau ar y cyd drwy gyfrwng Sylwadau Ysgrifenedig. | Cyflwynwyd datganiad y Cyngor. Yn aros am benderfyniad yr apêl. |
| ENF/2002/021 P7/351 | | 04/09/02 | Lleoli cartref symudol a chreu cwrtil. | Gwrthodwyd y cais adolwg a chyflwynwyd rhybudd. Apeliadau ar y cyd drwy gyfrwng | GC i baratoi Datganiad Apêl. GCyf i fynychu'r gwrandawiad fel arsylwyr. |

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL/ AMOD | NODIADAU | GWEITHRED |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Gwrandawiad Anffurfiol ar 09/09/03 *(Neuadd y Dref, Dinbych)*. | GC i ddarparu'r manylion apêl perthnasol i GCyf. |
| ENF/2002/033 P7/588 (cartref symudol P7/586 | | 04/09/02 | Gosod arwydd wynebfwrdd | Arwydd mewn Ardal Gadwraeth yn cael ei arddangos â chaniatâd tybiedig ond yn cael ei ystyried yn annerbyniol, gan ei fod wedi amgau dodrefn priffordd. Cyflwyno Rhybudd Dirwyn i Ben a pharhau i drafod â'r perchennog i sicrhau gwelliannau i'r eiddo. | GC i barhau i drafod ac atal y Rhybudd Dirwyn i Ben drafft gan y gall y perchennog fod yn barod i addasu'r arwydd. Parhau i gydgysylltu â'r Adran Priffyrdd i weld pa gamau gweithredu y maent yn eu hystyried yn addas. |
| ENF/2002/017 P24/194 | | 04/09/02 | Blaen siop uPVC. | Cyflwynwyd rhybudd. Dyddiad cydymffurfio: 21/01/04. | GC i fonitro'r dyddiad cydymffurfio. |
| ENF/307/01/S P2/41 | | 04/09/02 | Arwydd wynebfwrdd wedi ei oleuo. | GC yn trafod â pherchennog yr eiddo ac mae'r arwydd diawdurdod wedi ei newid. | GC i ymweld â'r safle, asesu'r arwydd newydd a phenderfynu a yw'n briodol parhau â'r mater. |
| 15/877/98/MA P47/3 | | 30/10/02 | Cais chwarelu mwynau heb ei benderfynu – echdynnu'n parhau | GC wedi ysgrifennu at gynrychiolwyr cyfreithiol perchnogion y chwarel ar sail y cyngor a dderbyniwyd gan Fargyfreithiwr a phenderfyniad y Pwyllgor | Yn aros am ymateb ar ran perchennog y chwarel.<br>GC i ymateb i'w hateb. |
| ENF/2002/0043 P7/592<br><br>ENF/2003/ P7/ | | 18/12/02<br><br>23/07/03 | Storio cerbydau rheilffyrdd a'r atodion cysylltiedig<br><br>Ffens terfyn a giatiau dros 2m o uchder | Cyflwynwyd rhybudd. Ymchwiliad cyhoeddus 16/9/03 (*Gwesty'r Talardy*). Derbyniwyd cyngor Bargyfreithiwr, sy'n cefnogi gweithredoedd y Cyngor.<br><br>Awdurdodwyd y gweithredu gorfodaeth. | Anfonwyd y Datganiad Achos, Proflen Tystiolaeth i'w pharatoi yn awr.<br><br>GCyf i ddrafftio'r Rhybudd Gorfodaeth. |

| CYFEIRNOD | CYFEIRIAD | PWYLLGOR | TOR-RHEOL/ AMOD | NODIADAU | GWEITHRED |
|---|---|---|---|---|---|
| ENF/2003/0004 P7/602 | | 26/02/03 | Ffens dros 1m o uchder wrth ymyl y ffordd fawr. | Cyflwynwyd rhybudd. Dyddiad cydymffurfio: 28 Awst 2003. Y panel cyntaf wedi ei ostwng i 1m o uchder yn awr. | GC yn fodlon fod y gwaith addasu'r ffens yn dderbyniol. Cydymffurfiwyd â'r Rhybudd Gorfodaeth.<br>DGP. |
| ENF/2003/0002 P13/8 | | 26/02/03 | Esgeuluso adeilad rhestredig. | Cyflwynwyd Rhybudd Gwaith Brys. Cyflawnwyd y gwaith, wedi ei ariannu gan y Fenter Treftadaeth Treflun. | GC yn fodlon fod y gwaith brys wedi ei gwblhau'n foddhaol.<br>DGP. |
| ENF/2003/0003 P2/42 | | 26/02/03 | Arwydd neon wedi ei oleuo'n fewnol diawdurdod | Awdurdodwyd erlyn. Arwydd mewn Ardal Gadwraeth. Arwydd wynebfwrdd wedi ei oleuo wedi ei dynnu ymaith a bwrdd heb ei oleuo wedi ei osod yn ei le. Yr arwydd blwch ymwthiol wedi ei oleuo yn parhau. Y perchennog yn trafod gosod arwyddion derbyniol yn eu lle. | GC i baratoi Datganiad a Phroflen Tystioaleth a rhoi cyfarwyddyd i'r GCyf fynd â'r achos i'r llys.<br>GC i gydgysylltu â'r perchennog ynghylch arwyddion newydd derbyniol. |
| ENF/2003/010 | | 26/03/03 | Arwydd blaengyfeirio diawdurdod. | Gwrthodwyd y cais adolwg. Awdurdodwyd erlyn. Cyflwynwyd apêl yn erbyn gwrthod y cais. Anfonwyd datganiad Sylwadau Ysgrifenedig. | Atal yr erlyn nes ceir canlyniad yr apêl. Parhau i aros am benderfyniad. |
| ENF/2003/009 | | 23/07/03 | Defnyddio carafan fel preswylfod a storio cerbydau. | Awdurdodwyd camau gweithredu gorfodaeth i sicrhau rhoi'r gorau i ddefnyddio'r garafan fel preswylfod a chael gwared o'r cerbydau. | GCyf i ddrafftio Rhybudd Gorfodaeth. |

GC – Gwasanaethau Cynllunio

GCyf – Gwasanaethau Cyfreithiol

YS – Ymweliad Safle

DGP – Dim Gweithredu Pellach

**CYFARFOD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**3 MEDI 2003**
**EITEM AGENDA RHIF 4**

# ADRODDIAD GORFODAETH CYNLLUNIO

**CYFEIRNOD :** ENF/2003/00028

**LLEOLIAD :**

**TOR-RHEOL :** Newid defnydd tir drwy leoli carafan sefydlog at ddibenion preswyl

**CYFYNGIADAU :** Gorlifdir Llanw

## POLISÏAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

CYNLLUN DATBLYGU UNEDOL SIR DDINBYCH
Polisi GEN 1 – Ffiniau Datblygu
Polisi EMP 2 – Prif Ardal Gyflogaeth
Polisi GEN 6 – Gofynion Rheoli Datblygu

CANLLAWIAU'R LLYWODRAETH GANOLOG
Polisi Cynllunio Cymru 2002
Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 9 – Gorfodaeth Rheolaeth Cynllunio

YSTYRIAETHAU HAWLIAU DYNOL
Ers Hydref 2000 ystyrir darpariaethau'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 wrth ystyried gweithredu camau gorfodaeth yn erbyn datblygu tir yn ddiawdurdod a materion eraill cysylltiedig. Yn yr achos hwn, yr hyn sydd dan sylw yw a oedd gan yr ymgeisydd yr hawl i leoli carafan sefydlog ar y tir i'w defnyddio fel ei brif breswylfod, ar y cyd a darparu diogeledd ychwanegol i'r safle. Rhaid ystyried yr hawliau hyn yn erbyn y polisïau cynllunio mewn grym ar y pryd.

Ni chodwyd unrhyw faterion hawliau dynol penodol gan berchennog yr eiddo nac unrhyw berson arall â diddordeb.

## 1. GWYBODAETH GEFNDIR

1.1 Lleolir safle'r cais ar Barc Busnes i'r de orllewin o Rhuddlan ar y ffordd . Mae'r Parc Busnes yn cynnwys cymysgedd o unedau diwydiant ysgafn/defnydd cyflogaeth, ac fe'i lleolir o fewn terfynau cyfaneddu Rhuddlan.

1.2 Mae'r Uned dan sylw yn cael ei defnyddio gan sy'n gwerthu siediau gardd ac ati.

1.3 Ym mis Ebrill eleni hysbyswyd swyddogion y Cyngor fod carafan sefydlog wedi ei lleoli ym Mharc Busnes .

1.4 O ganlyniad i ymholiadau ym mis Mehefin 2003 nodwyd fod carafan sefydlog wedi ei gosod y tu ôl i siediau'n cael eu harddangos ar y safle ac yn cael ei defnyddio gan berchennog cwmni a'i wraig fel preswylfod.

1.5 Nid oes caniatâd cynllunio i storio carafan ar y safle ac nid oes unrhyw hawliau cyfreithlon i breswylio ar y tir. Felly mae'r defnydd yma'n ddefnydd diawdurdod.

1.6 Mewn ymgais i ddatrys y mater, cyflwynodd perchennog gais cynllunio adolwg i gadw'r garafan a'i defnyddio i fyw ynddi.

1.7 Adroddir am y cais hwnnw mewn man arall ar yr agenda hon, ac argymhellwyd gwrthod y cais. Os bydd yr Aelodau wedi cytuno â'r argymhelliad mae'n ofynnol ceisio awdurdod i gyflwyno Rhybudd Gorfodaeth, er mwyn sicrhau cael gwared o'r garafan a bod y defnydd preswyl yn dirwyn i ben.

## 2. RHESYMAU AM GYFLWYNO RHYBUDD GORFODAETH

2.1 Mae newid defnydd y tir yn ddiawdurdod wedi digwydd yn y 10 mlynedd diwethaf.

2.2 Dynodir y safle fel prif ardal gyflogaeth yn y Cynllun Datblygu Unedol. Mae gosod carafan sefydlog i'w defnyddio fel preswylfod yn annerbyniol yn y lleoliad hwn.

2.3 Felly mae'r datblygiad diawdurdod yn groes i Bolisïau GEN 1, GEN 6 ac EMP 2 y Cynllun Datblygu Unedol.

2.4 Ni allai defnyddio amodau fel rhan o ganiatáu caniatâd cynllunio ar gyfer cadw'r garafan sefydlog diawdurdod at ddibenion preswyl oresgyn y gwrthwynebiadau hyn.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Rhoi awdurdod i gyflawni'r isod:

i) Cyflwyno Rhybudd Gorfodaeth i sicrhau rhoi'r gorau i'r defnydd preswyl a chael gwared o'r garafan sefydlog oddi ar y tir.

ii) Dechrau camau erlyn, neu unrhyw gamau gweithredu eraill priodol dan y Deddfau Cynllunio, yn erbyn y person neu'r personau y cyflwynir unrhyw Rybudd Gorfodaeth neu unrhyw Rybudd arall iddo/iddi, petaent yn methu â chydymffurfio â gofynion y rhybudd.

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**3 Medi 2003**
**EITEM AGENDA RHIF 5**

## ADRODDIAD GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO

## DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE

### 1. DIBEN YR ADRODDIAD

**1.1** Cynghori Aelodau am ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliadau Safle y gofynnir amdanynt gan y Pwyllgor Cynllunio.

### 2. DYDDIAD YR YMWELIADAU SAFLE

**2.1** Mewn ymgynghoriad â'r Adran Cyfreithiol a Gweinyddol, penderfynwyd mai **Dydd Llun 8 Medi 2003** yw'r dyddiad mwyaf addas. Mae'r dyddiad hwn wedi ei neilltuo'n ddarpariaethol.

**2.2** Felly fe'ch cynghorir y bydd unrhyw ymweliadau safle a drefnir heddiw yn cael eu cynnal **Ddydd Llun 8 Medi 2003.**

### 3. AELODAETH Y PANEL YMWELIAD SAFLE

**3.1** Bydd hyn yn dibynnu ar Gydbwysedd Gwleidyddol a bydd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a'r Aelod(au) Lleol perthnasol.

### 4. ARGYMHELLIAD

**4.1** **Bod yr Aelodau yn cytuno i'r Ymweliadau Safle gael eu cynnal Ddydd Llun 8 Medi 2003.**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 3 ydd Medi 2003**
**EITEM: 6**

# Penderfyniadau wedi eu gwneud gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio o dan Pwerau Dirprwyedig 1af - 31ain Gorffennaf 2003

**Eitem er gwybodaeth**

**Mae hon yn rhestr o geisiadau lle cymerwyd pende rfyniadau eisoes dan hawliau dirprwyedig. Os ydych yn dymuno trafod y cais/penderfyniad, yna cysylltwch gyda'r Swyddog Achos os gwelwch yn dda.**

**MATHAU O BENDERFYNIAD**

| | |
|---|---|
| **CANIATAU** | **- rhoi caniatâd cynllunio** |
| **GWRTHOD** | **- gwrthod pob math o geisiadau** |
| **CYMERADWYO** | **- cymeradwyo materion neilltuedig neu amod** |
| **CANIATÂD** | **- rhoi caniatâd adeilad rhestredig, ardal gadwraeth neu hysbysebu** |
| **TYBIEDIG** | **- dim angen caniatâd hysbysebu** |
| **DIM GWRTH** | **- dim gwrthwynebiad i goeden(coed) mewn ardaloedd cadwraeth** |
| **DIM ANGEN** | **- nid oes angen caniatâd ar gyfer y cais** |
| **PENDERFYNU** | **- penderfyniad nad oes angen cymeradwyaeth ymlaen llaw neu rhoddir ar benderfynu cais (gwaith telegyfathrebu neu amaethyddol penodol)** |
| **DAT. A GANIATEIR** | **- canfod bod cais yn ddatblygiad a ganiateir ar ôl derbyn cais** |
| **TYNNU'N ÔL** | **- cais wedi ei dynnu'n ôl gan yr ymgeisydd** |
| **ANNILYS** | **- canfod bod cais yn annilys** |
| **TYSTYSGRIFO** | **- cyflwynwyd tystysgrif defnydd cyfreithiol** |
| **G.TYSTYSGRIFO** | **- gwrthod cyflwyno tystysgrif defnydd cyfreithiol** |